**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, 11eg o Orffennaf am 7:30 y.h** **Bil yr etholiad rhwng £350 a £400**

**Yn Bresennol**
Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming (SP), Sara Williams (SW), John Owen (JO), Griffith Jones (GJ), Emlyn Hughes (EH), William Jones (WJ) a'r Cyng. Aled Jones [cyrraedd yn ystod eitem 9] (AJ).

1. **Ymddiheuriadau –** Olwen Roberts.

2. **Datgan Diddordeb –** Dim

3. **Hysbysiadau y Cadeirydd –** Coesawyd pawb a oedd yn bresennol a rhoddwyd croeso arbennig i Sara Williams i'w chyfarfod cyntaf.

4. **Cofnodion**

4.1 Cynigodd John Owen fod cofnodion y 13eg o Fehefin, 2017 yn gywir. Eiliodd Griff Jones ac fe'u mabwysiadwyd.

4.2 Materion yn codi –

4.2.1 **Dŵr yr Eifl -** Adroddodd y Clerc fod Dewi Wyn Owen wedi nodi ar y 21 Mehefin ei fod am darfod y mater ymhellach gyda'r Swyddog Draenio cyn gynted ac y bo modd. *Y Clerc i ddilyn i fyny eto ar ôl y 17eg o Orffennaf.*

4.2.2 **Mynwent Pistyll –** Gan nad oedd Gwilym Williams yn bresennol gohiriwyd y drafodaeth i gyfarfod Medi 2017.

4.2.3 **Palmant gyferbyn a ffens Cae Chwarae Llithfaen –** Nid oes gohebiaeth pellach i law. Penderfynwyd fod y mater bellach yn llaw Pwyllgor y Cae Chwarae.

4.2.4 **Gweithgaredd yn y Nant -** Mae Rheolwr Cyffredinol y Nant wedi cysylltu hefo trefnydd y digwyddiad beicio a mae yntau wedi derbyn sylwadau'r Cyngor.

4.2.5 **Llidiart y Llwybr Cyhoeddus –** *Y Clerc i atgoffa Swyddog Llwybrau'r Cyngor Sir nad yw'r llidiart gerCapel Isa yno mwyach a gofyn iddo os oes angen i'r Cyngor Cymuned wneud rhywbeth am hyn.*

4.2.6 **Ymgynghoriad Gwasanaeth Tân –** Adroddwyd nad oedd sylwadau i'w cyflwyno i'r Gwasanaeth Tân.

5. **Canolfan Llithfaen –**

5.1 **Asesiad Risg –** Materion yn codi:

5.1.1 Nododd y Clerc fod y mater o ddarparu cyngor cyfreithiol i Gynghorau Cymuned sydd yn y broses o dderbyn Asedau Cymunedol gan Gyngor Sir wedi dod i sylw Un Llais Cymru eisioes. Bu trafodaethau lleol a chenedlaethol ond nid oes ganddynt

Draft

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

wasanaeth sy'n cyfarfod a'r angen yma ar hyn o bryd. Petaent yn penderfynu darparu'r gwasanaeth nid yw'n bosibl iddo fod mewn lle mewn pryd i fod o gymorth i Gyngor Cymuned Pistyll o ran Canolfan Llithfaen. Efallai y gall Un Llais Cymru roi ystyriaeth i ddarparu cofrestr o gyfreithwyr/ddarparwyr a allai fod gymorth mewn amgylchiadau fel hyn.

O dan yr amgylchiadau cynigiodd SP fod y Cyngor yn mynd am amcanbrisiau gan gwmniau Cyfreithwyr lleol ar gyfer darparu cyngor annibynnol i'r Cyngor Cymuned a Phwyllgor y Ganolfan yng nghyd destun amodau Prydles newydd y Ganolfan. Eiliwyd y cynnig gan EH ac roedd pawb yn cytuno'n unfrydol.
*Y Clerc i ddarparu briff ac i sicrhau amcanbrisiau ar gyfer cyfarfod mis Medi.*

5.1.2 Adroddodd y Clerc fod y Cyngor Sir yn mynd i wirio os ydyw cofnodion y Gofrestfa Dir yn adlewyrchu cynnwys gweithredoedd y Cyngor a thy'r ysgol. *Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor i holi am y cynnydd ac i yrru'r ymateb i Ysgrifennydd Pwyllgor y Ganolfan gan eu bod yn cyfarfod cyn cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.*

5.1.3 Adroddodd y Clerc iddo dderbyn copi o Adroddiad Asbestos y Ganolfan sy'n ddyddiedig y 13 Mawrth, 2017. Mae'r Adroddiad yn cadarnhau nad oes pwyntiau asbestos yn y Ganolfan ac yn nodi y byddai angen arolwg dymchweliad a gwelliannau cyn i welliannau neu ddymchweliadau gymryd lle.
Adroddodd SP fod copi papur o'r adroddiad ar gyflwr archwiliedig y Ganolfan a gwblhawyd ym Mawrth, 2017 dan ofal Pwyllgor y Ganolfan. Cynigiodd JO nad oes angen darparu copi i'r Cyngor Cymuned gan nad yw cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar Bwyllgor y Ganolfan o'r farn fod unrhyw fater sy'n codi angen dod i sylw'r Cyngor ar hyn o bryd. Eiliodd WJ ac roedd pawb yn cytuno.

5.2 Amodau Prydles Newydd – Dim i'w adrodd: gweler eitem 5.1.1.

5.3 Costau Cyfreithiol arfaethedig y Cyngor Sir – Adroddodd y Clerc fod £400 wedi'i dynodi ar gyfer costau cyfreithiol y Cyngor Sir ar y rhagamcanion a fabwysiadwyd ar gyfer pennu'r praeseb ar gyfer 2017/19.

6. **Polisi Iaith –** Trafodwyd cymal o'r Polisi Iaith a oedd angen ystyriaeth bellach. Cynigiodd JO fod y Cyngor yn mabwysiadu gwelliant penodol i'r cymal. Eiliodd GJ ac roedd pawb yn cytuno. Gan hynny mae'r Polisi Iaith cyfan bellach wedi'i fabwysiadu.

7. **Y Wefan –**
**SP yn cynnig mabwysiadu'r wefan yn amodol ar i'r Aelodau gael wythnos i fwrw golwg trosti ar ôl i'r diwygiadau diweddaraf gael eu cwblhau. WJ yn eilio a phawb yn cytuno.**

Draft

Cyngor Cymuned Pistyll

Draft

Ar ôl y diwygiadau yma y bwriad, os yr wyt yn cytuno, ydi i gylchredeg yr hyperlinc i Aelodau'r Cyngor gan roi wythnos iddynt ddod yn ôl gyda unrhyw sylwadau.

8. **Ceisiadau Cynllunio** –

8.1 Cais Rhif:C17/0537/43/LL-Ty'n Garreg, Llithfaen, Gwynedd, LL53 6NS – Adeiladu estyniad deulawr ochr ynghyd ac estyniad blaen a cefn unllawr i 'r tŷ. Hysbyswyd Gwasanaeth Cynllunio y Cyngor Sir, o fewn yr amserlen arfaethedig, nad oes gan y Cyngor wrthwynebiad i'r cais cynllunio os nad yw'n effeithio ar y llwybr cyhoeddus sydd yn mynd heibio'r safle.

8.2 Cais Rhif: C17/0603/43/LL-Capel Bethania Chapel, Pistyll, Pwllheli, Gwynedd, LL536LS - Newid defnydd ac ymestyn capel i greu uned wyliau yn cynnwys newid defnydd tir amaethyddol o amgylch y capel i greu ardal mwynderol a gosod tanc trin (cais diwygiedig). Cynigiodd WJ i'r Cyngor Cymuned hysbysu'r Gwasanaeth Cynllunio nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r Cynllun. *Y Clerc i hysbysu'r Gwasanaeth Cynllunio.*

9. **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw -**

9.1 Casgliad deunyddiau Ailgylchu yn Llithfaen – Derbynwyd cwyn fod y loriau ailgylchu wedi bod yn fler ar y 4ydd o Orffennaf gan golli sbwriel hyd pentre Llithfaen. Hysbysodd y Clerc Galw Gwynedd a chafodd ymateb yn nodi fod yr ymholiad wedi'i gyfeirio at sylw'r adran berthnasol a'r fod hefyd wedi'i gyfeirio i'r tîm glanhau strydoedd i ddod allan i glirio.

9.2 Cofrestr Archwilio Asedau –Dyma Restr o'r Aeloadu a gytunwyd sydd i fod yn gyfrifol am fonitro gwahanol asedau sefydlog y Cyngor:
Rhan o Hen Fynwent Pistyll- Gwilym Williams
Cysgodfan Fws a mainc Pistyll ynghyd â mainc Tan y Bwlch: William Jones
Cysgodfan Fws Awelfryn – Olwen Roberts
Cysgodfan Fws Iard Ysgol – Lisbeth James
Mainc gyferbyn â Siop Llithfaen – Sianelen Pleming
Mainc Carnguwch – Griffith Jones
Trafodwyd yr opsiynau mwyaf ymarferol i gofnodi fod yr asedau yn cael eu monitro. Cynigiodd SP fod eitem safonol ar raglen pob cyfarfod cyffredin o'r Cyngor i alluogi Aelodau sy'n gyfrifol am fonitro ased sefydlog i adrodd ar eu harchwiliad misol. Eiliodd SW ac fe fabwysiadwyd y cynnig. *Y Clerc i ychwanegu'r eitem o Fedi ymalen.*

**Eurwyn – Ffurflenni monitro – Arwyddion o werth a chyflwr ac amcan oes?!**

9.3 Rhaglen Waith Rheolaethol - Cyflwynwyd a thrafodwyd Rhaglen Waith Rheolaethaol ar gyfer 2017/18. Cynigiodd GJ i'r Rhaglen Waith gael ei mabwysiadu ac eiliodd JO. Roedd pawb yn gytûn ac fe'i mabwysiadwyd.

10. **Gohebiaeth –** Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

11. **Cyllid**

11.1 **Ffurflen Flynyddol: Datganiad Llywodraethu a Chyfrifyddu 2016/17-** Cadarnhaodd y Clerc fod y Ffurflen Flynyddol wedi'i derbyn gan BDO o fewn yr amserlen ddynodedig.

11.2 **Adroddiad Archwilwyr Allannol ar gyfer 2015/16 –** Adroddodd y Clerc fod y materion a godwyd gan yr Archwilwyr Allannol wedi cael eu trin ac felly ni fydd angen cwblhau cynllun gweithredu.

11.3 **Archwiliwr Mewnol -** Gan fod John Roberts, yr Archwiliwr Mewnol presennol, yn ymddeol nododd y Clerc y bydd angen penodi Archwiliwr newydd. Cynigiodd EH fod y Cyngor yn gwahodd tri amcanbris gan Archwilwyr cymwys. Eiliodd SW ac roedd pawb yn gytûn, *Y Clerc i weithredu.* **Ffonio Luned Cyngor Sir i ddechrau.**

11.4 **Adolygiad Mantolen/cynnydd yn erbyn y gyllideb a Chysoniad Banc –** Adolygwyd y fantolen, y cynnydd yn erbyn y gyllideb a'r cysoniad banc ac fe'u cafwyd yn gywir. Penderfynwyd yn unfrydol i'w mabwysiadu.

11.5 **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf –**

Derbyniadau: Dim:

| | |
|---|---|
| Taliadau: E Griffith (Cyflog Clerc) | £160.00 |
| √ (Costau/treuliau) | £25.00 |
| Pwyllgor Gwyl Ifan (Rhodd) | £200.00 |
| Canolfan Cymdeithasol Llithfaen (llogi 16/17) | £600.00 |
| Osian Williams (Torri Gwair) | £260.00 |

Balans cyfrif cyfredol: £3789.12
Balans Cyfrif cadw: £2143.75

11.6 **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -**

| | | |
|---|---|---|
| E Griffith (Cyflog Clerc) | £160.00 | |
| √ (Costau/treuliau) | £25.00 | £185.00 |
| A Hughes-Jones Dyson a'u Cwmni (Talu wrth ennill) | | £168.00 |
| Swyddfa Archwilio Cymru (Archwiliad All. 15/16) | | £600.00 |

(£600.00 – Canolfan Gymdeithasol Llithfaen: Defnydd o'r Ganolfan 2017/18 i'w dalu yn Nhachwedd, 2017) **EG Ffonio Trefor**

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 12fed o Fedi am 7:30 y.h.**

Draft

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347